# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 8**

ADOLYGIADAU AC APELAU

**PENNOD 3**

APELAU

**178 Gwneud apêl**

(1) Rhaid gwneud apêl yn erbyn penderfyniad apeliadwy i'r tribiwnlys.

(2) Ond ni chaiff person wneud apêl i'r tribiwnlys os yw is-adran (3), (4) neu (5) yn gymwys.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os penderfyniad ACC i ddiwygio ffurflen dreth y person o dan adran 45 tra bo ymholiad yn mynd rhagddo yw'r penderfyniad y mae'r person yn dymuno apelio yn ei erbyn, a

(b) os nad yw'r ymholiad wedi ei gwblhau hyd yma.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) pan fo'r person wedi rhoi hysbysiad am gais i ACC o dan adran 173 am adolygiad o'r penderfyniad y mae'r person yn dymuno apelio yn ei erbyn, a

(b) pan nad yw'r cyfnod y mae'n rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad am gasgliadau'r adolygiad oddi fewn iddo o dan adran 176(5) wedi dod i ben hyd yma.

(5) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) pan fo'r person wedi ymrwymo i gytundeb setlo mewn perthynas â'r penderfyniad y mae'r person yn dymuno apelio yn ei erbyn, a

(b) pan na fo'r person wedi rhoi hysbysiad tynnu'n ôl o'r cytundeb o dan adran 184(4).

(6) Nid yw'r adran hon yn rhwystro ymdrin â phenderfyniad apeliadwy yn unol ag adran 184.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 178 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I2** A. 178 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 2(i)**

## 179 Terfyn amser ar gyfer gwneud apêl

(1) Rhaid i apêl gael ei gwneud i'r tribiwnlys cyn diwedd y cyfnod perthnasol.

(2) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (3) a (4), y cyfnod perthnasol yw—

(a) pan fo'r apêl yn ymwneud â phenderfyniad i ddiwygio ffurflen dreth yr apelai o dan adran 45 tra bo ymholiad yn mynd rhagddo, y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae ACC yn dyroddi hysbysiad cau sy'n hysbysu'r apelai fod yr ymholiad wedi ei gwblhau;

(b) pan fo'r apêl yn ymwneud â phenderfyniad o unrhyw fath arall, y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae ACC yn dyroddi'r hysbysiad sy'n hysbysu'r apelai am y penderfyniad.

(3) Yn ddarostyngedig i is-adran (4), pan fo ACC wedi adolygu'r penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef, y cyfnod perthnasol yw'r cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad i'r apelai o dan adran 176(5), (6) neu (7) mewn perthynas â'r adolygiad.

(4) Pan fo'r apelai wedi ymrwymo i gytundeb setlo mewn perthynas â'r penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef ond ei fod wedi rhoi hysbysiad wedi hynny ei fod yn tynnu'n ôl o'r cytundeb o dan adran 184(4), y cyfnod perthnasol yw—

(a) y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir yr hysbysiad tynnu'n ôl, neu

(b) os yw'n hwyrach, y cyfnod perthnasol sy'n gymwys o dan is-adran (3).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 179 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I4** A. 179 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 2(i)**

## 180 Gwneud apêl yn hwyr

(1) Caniateir gwneud apêl i'r tribiwnlys ar ôl y cyfnod perthnasol os yw'r tribiwnlys yn rhoi caniatâd.

(2) Yn yr adran hon, mae i "y cyfnod perthnasol" yr un ystyr ag yn adran 179.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 180 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I6** A. 180 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 2(i)**

## 181 Dyfarnu ar apêl

(1) Os gwneir apêl yn erbyn penderfyniad apeliadwy i'r tribiwnlys yn unol ag adran 179 neu 180 (ac nad yw'n cael ei thynnu'n ôl), rhaid i'r tribiwnlys ddyfarnu'r apêl.

(2) Caiff y tribiwnlys ddyfarnu bod y penderfyniad apeliadwy—

(a) i'w gadarnhau,

(b) i'w amrywio, neu

(c) i'w ganslo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 181 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I8** A. 181 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 2(i)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2018.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, PENNOD 3.